



Sesiwn Frifio 7 Munud

Adolygiad Diogelu Unedig Sengl / CV ADUS 01/2021

Cefndir



Ym mis Hydref 2020, aeth yr Heddlu i gyfeiriad cartref Karen yn dilyn galwad gan gymydog. Cafwyd hyd i'w phartner James yn ddifywyd y tu mewn i'r eiddo gyda sawl clwyf trywanu i'w gorff a chafodd ei ddatgan yn farw yn y fan a'r lle. Cafwyd hyd i Karen gyda sawl clwyf trywanu i'w chorff hithau a chafodd driniaeth cynnal bywyd yn y fan a'r lle, a achubodd ei bywyd. Cafodd eu mab Marcus ei arestio wedi hynny.

Roedd Marcus yn hysbys i nifer o asiantaethau gan gynnwys gwasanaethau Iechyd Meddwl, y Gwasanaeth Prawf a'r Heddlu, ar ôl treulio dedfryd o garchar am Gam-drin Domestig tuag at ei rieni, a oedd yn cynnwys ymosodiad corfforol a difrod troseddol ac roedd wedi bod yn glaf iechyd meddwl o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.

Ym mis Gorffennaf 2022 plediodd Marcus yn euog i ddynladdiad James ac i geisio llofruddio Karen. Derbyniodd Marcus Orchymyn Ysbyty Adran 41 (Deddf Iechyd Meddwl 1983) ac fe'i cadwyd heb derfyn amser.

CAM 01



Cyd-destun

CAM 02

Diffiniwyd James fel Rastaffariad ysbrydol a magwyd y teulu o fewn diwylliant, credoau a gwerthoedd ysbrydol Rataffaraidd.

Roedd y teulu'n byw gyda ffactorau risg lluosog (cam-drin domestig, iechyd meddwl, defnyddio sylweddau)

Cafodd Marcus ei ymosod yn dreisgar â chyllell yn 2017 a theimlodd ei deulu mai dyma ddechrau'r dirywiad yn ei iechyd meddwl.

Roedd nifer o gyfleoedd i ddiogelu aelodau'r teulu trwy brosesau asesu risg cadarn ond ni chafodd y cyfleoedd hyn eu harchwilio na'u defnyddio'n gyson.

Dysgu Sefydliadol



CAM 03

Nodwedd sylweddol o'r adolygiad oedd y rhwystr i geisio cymorth mewn perthynas â Cham-drin Domestig a pheidio ag ymgysylltu'n gyson â chymorth Iechyd Meddwl.

- Rhwystrau i ddiodefwyr sy'n adrodd am gam-drin domestig.
- Cymhwysio egwyddorion Gofyn a Gweithredu yn gyson
- Proses atgyfeirio Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC)
- Prosesau Gorchymyn Ffrwyno
- Darparu rhaglenni cyflawnwr cam-drin domestig ar gyfer cam-drin teuluol.
- Effaith y defnydd o sylweddau ar iechyd meddwl.
- Asiantaethau allweddol i fod yn rhan o drafodaethau ar gyfer cynllunio absenoldeb cartref o'r ysbyty i'r rhai sydd mewn ysbyty meddwl o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.
- Ffyrdd amgen o ddarparu apwyntiadau iechyd meddwl dilynol
- Cofnodi pob parti â diddordeb mewn trafodaethau amlasiantaethol
- Dull cyson o gymhwyso, deall a lliniaru risg ymhlith gweithwyr proffesiynol gan ddefnyddio asesiadau risg.

Argymhellion, Parhad...

7. Gweithwyr proffesiynol i gadarnhau dilysrwydd Gorchymynion Sifil neu gyfarwyddiadau cyfreithiol eraill cyn adolygu a gweithredu prosesau rheoli risg.
8. Hyb Cydlynu ADUS i hysbysu'r Gwasanaeth Prawf o'r dysgu a nodwyd a cheisio adolygiad o ymyriadau'r cyflawnwr cam-drin domestig teuluol a gafwyd yn euog ar gyfer y rhai sy'n destun goruchwyliaeth gan y Gwasanaeth Prawf.
9. Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Caerdydd i geisio sicrwydd a thystiolaeth gan y Gwasanaeth Prawf bod y newid hwn yn cael ei weithredu.
10. Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Caerdydd i godi ymwybyddiaeth o'i gwasanaethau a gomisiynir sy'n gweithio gydag unigolion a theuluoedd i leihau trais, camfanteisio a mathau eraill o gam-drin
11. Asiantaethau i sicrhau bod pawb sy'n bresennol ac ynghlwm wrth drafodaethau yn cael eu cofnodi'n gywir.
12. Ymarferwyr sy'n ymwneud â chynllunio rheoli risg a darparu gwasanaethau cymorth i ystyried effaith defnyddio sylweddau ac unrhyw gydbertynas â materion iechyd meddwl, yn enwedig gan ystyried credoau diwylliannol a chrefyddol.
13. Bwrdd Cynllunio Ardal a Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i adolygu'r ddarpariaeth a'r cymorth presennol ar gyfer y rhai sydd ag anghenion iechyd meddwl a defnyddio sylweddau, a gweithio gydag asiantaethau i weithredu gwelliannau a nodwyd/gofynnol.
14. Dylai gwasanaethau iechyd ddatblygu gwybodaeth y gellir ei darparu i deuluoedd a rhieni o ran argaeledd cymorth i unigolion sy'n profi problemau iechyd meddwl.

CAM 04



Argymhellion ar gyfer Gwella Systemau ac Ymarfer

Argymhellion

1. Asiantaethau i ddeall y rhwystrau sy'n wynebu diodefwyr cam-drin domestig teuluol a'r angen i drafod cam-drin domestig yn agored yn ystod cyswllt ag unigolion.
2. Gweithwyr proffesiynol sy'n cyflwyno atgyfeiriadau diogelu i gadarnhau eu bod wedi'u derbyn.
3. Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yng Nghaerdydd a'r Fro i geisio sicrwydd bod y broses Trafodaethau Dyddiol Amlasiantaethol yn addas i'r diben a bod achosion risg uchel yn mynd ymlaen i MARAC.
4. Codi ymwybyddiaeth o brosesau Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA) a MARAC ar draws asiantaethau a dulliau rheoli risg y rhain.
5. Hyb Cydlynu ADUS i hysbysu'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol o'r dysgu a nodwyd yn yr adroddiad hwn a cheisio ystyried adolygu'r broses ar gyfer ymateb i geisiadau am amrywio a/neu ryddhau Gorchymynion Atal.
6. Hysbysu asiantaethau o'r amgylchiadau a'r prosesau sy'n ymwneud ag amrywio a/neu ryddhau Gorchymynion Atal. Dylid cynnwys sut y gall partion â diddordeb wneud sylwadau i'r Llys yn ystod y broses ymgeisio.

Argymhellion

Parhad...

CAM 05

CAM 06



CAM 07

15. Mae angen trafodaeth gyfannol ar yr holl ffactorau risg a materion cam-drin domestig blaenorol cyn ystyried cynlluniau absenoldeb cartref ar gyfer pob claf mewnol. Dylai pob asiantaeth hysbys fod yn rhan o'r trafodaethau hyn cyn yr absenoldeb.

16. Gwasanaethau iechyd i ddarparu gwybodaeth ysgrifenedig ar adeg absenoldeb cartref/rhyddhau i'r perthynas agosaf/teuluoedd am amgylchiadau'r absenoldeb/rhyddhau a threfniadau i roi cymorth ar yr adeg honno.

17. Dylai Gwasanaethau Iechyd sy'n ymwneud â darparu cymorth iechyd meddwl fabwysiadu dull atblygol o ran apwyntiadau dilynol. Dylid ystyried y ffordd orau o ymgysylltu â'r rhai yn y gymuned na fyddant yn mynychu apwyntiadau.

